



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-2018

Gwybodaeth gefndir ar gyfer
Asesiadau o Wariant Safonol

Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Mawrth 2017

Os oes gennych ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn, cysylltwch â:

Y Gangen Cyllid a Pherfformiad Llywodraeth Leol
Yr Is-adran Cyllid a Pherfformiad Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5223

Ffacs: 029 2082 5346

[e-bost: LocalGovernmentSettlement@wales.gsi.gov.uk](mailto:LocalGovernmentSettlement@wales.gsi.gov.uk)

Gellir cael hyd i'r ddogfen hon ar Wefan Llywodraeth Cymru hefyd, yn:

<http://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/settlement/?lang=cy>

Mae ciwbiau data manwl hefyd wedi cael eu cyhoeddi ar wefan StatsCymru. Mae'r data a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn ar gael ar StatsCymru yn:

www.statcymru.cymru.gov.uk



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

OGL

Cynnwys	i - iii
Rhagair	iv-xii
Dadansoddiad o Gyfanswm y Gwariant Safonol (TSS)	1 - 4
Rhagdybiaethau cyffredinol wrth gyfrifo'r Asesiad o Wariant Safonol (SSA).	1
Gwahanu'r SSA rhwng haen yr awdurdod unedol a haen yr heddlu.	2
Gwahanu'r Grant Cynnal Refeniw (RSG) a'r swm y gellir ei ddosbarthu o Ardrethi Annomestig (NDR) rhwng haen yr awdurdod unedol a haen yr heddlu,	3
Esboniad o'r broses o gydgasglu'r SSA - cyfanswm cyffredinol cyllido a gwariant TSS (gan anwybyddu'r rhaniad rhwng awdurdodau unedol a'r heddlu).	4
Crynodebau o SSAs, Cyllid Allanol Cyfun (AEF), hawl i dderbyn RSG a chyfrannau o'r swm y gellir ei ddosbarthu o'r NDR	5 - 11
Crynodeb o'r SSA a'i gydrannau, hy. RSG, NDR, incwm o'r dreth gyngor (gan dybio gwariant sydd yn unol â lefel yr SSA).	5
Crynodeb o'r SSA a'i gydrannau, wedi'i ddangos mewn punnoedd fesul pen o'r boblogaeth. Defnyddir poblogaeth sy'n seiliedig ar ragamcanion 2014 o'r rhai fydd fel arfer yn preswyllo yn yr ardal ar 30 Mehefin 2017, yn ôl amcangyfrif Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru.	6
Cymharu cyfanswm yr SSA ar gyfer Setliadau 2016-17 a 2017-18, gan roi'r gwahaniaeth mewn termau absoliwt ac mewn canrannau.	7
Cyllid Allanol Cyfun (AEF) - swm yr RSG, yr NDR a grant yr heddlu ar gyfer pob awdurdod, a'r ffigur hwn wedi'i fynegi fel canran o'r SSA.	8
Cymharu'r RSG rhwng Setliadau 2016-17 a 2017-18, gan roi'r gwahaniaeth mewn termau absoliwt ac mewn canrannau.	9
Cymharu'r NDR rhwng Setliadau 2016-17 a 2017-18, gan roi'r gwahaniaeth mewn termau absoliwt ac mewn canrannau.	10
Y newid cyffredinol i'r Cyllid Allanol Cyfun (AEF) rhwng 2016-17 a 2017-18- yr hawl i'r RSG a'r NDR mewn termau absoliwt ac mewn canrannau.	11

Dadansoddiad o Asesiadau ar Sail Dangosyddion (IBAs) ar gyfer awdurdodau unedol

13 – 78

Tablau'n dadansoddi holl gydrannau gwasanaeth yr SSA cyfredol, gan ddangos gwerthoedd dangosyddion angen (prif ddangosyddion cyfansawdd neu CPIs) hefyd.

Gwasanaeth	Sector	
Addysgu ysgolion Meithrin a Chynradd a gwasanaethau eraill	Ysgolion prif ffrwd	13
Addysgu mewn ysgolion uwchradd a gwasanaethau eraill	Ysgolion prif ffrwd	14
Addysg arbennig	Ysgolion prif ffrwd	15
Gwasanaethau cludiant ysgolion Meithrin a Chynradd	Gwasanaethau ysgolion eraill	16
Prydau ysgol	Gwasanaethau ysgolion eraill	17
Gwasanaethau cludiant ysgolion uwchradd	Gwasanaethau ysgolion eraill	18
Addysg oedolion ac addysg barhaus	Addysg barhaus	19
Cludiant i addysg oedolion ac addysg barhaus	Addysg barhaus	20
Gwasanaethau ieuencid	Addysg arall	21
Gweinyddu addysg	Addysg arall	22
Plant a phobl ifanc	PSS	23
Gofal a gofal cartref oedolion hŷn	PSS	24
Gwasanaethau cymdeithasol personol i oedolion iau	PSS	25
Cynyddu Terfyn Cyfalaf ar gyfer Gofal Preswyl	PSS	26
Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd	PSS	27
Gweinyddu'r PSS	PSS	28
Tocynnau teithio rhatach	Trafnidiaeth	29
Goleuadau stryd	Trafnidiaeth	30
Cynnal a chadw ffyrdd	Trafnidiaeth	31
Cymorth refeniw trafndiaeth gyhoeddus	Trafnidiaeth	32
Addysg diogelwch ffyrdd a llwybrau diogel	Trafnidiaeth	33
Gwasanaeth tân	Tân	34
Cofrestru etholiadol	Gwasanaethau eraill	35
Mynwentydd ac amlosgfeydd	Gwasanaethau eraill	36
Amddiffyn yr arfordir	Gwasanaethau eraill	37
Iechyd amgylcheddol ac iechyd porthladdoedd eraill	Gwasanaethau eraill	38
Cynllunio	Gwasanaethau eraill	39
Casglu ysbwriel	Gwasanaethau eraill	40
Gwasanaethau diwylliannol	Gwasanaethau eraill	41
Datblygu economaidd	Gwasanaethau eraill	42
Gwasanaethau llyfrgell	Gwasanaethau eraill	43
Hamdden	Gwasanaethau eraill	44
Tai nad ydynt yn gysylltiedig â'r HRA	Gwasanaethau eraill	45
Atal Digartrefedd	Gwasanaethau eraill	46
Glanhau Strydoedd	Gwasanaethau eraill	47
Diogelwch bwyd	Gwasanaethau eraill	48
Gwaredu sbwriel	Gwasanaethau eraill	49
Diogelu defnyddwyr	Gwasanaethau eraill	50
Gweinyddu'r dreth gyngor	Gwasanaethau eraill	51

Gwasanaeth	Sector	
Cymhorthdal Gweinyddu Cynlluniau Gostwng y Dreth Gyngor	Gwasanaethau eraill	52
Gwasanaethau Eraill	Gwasanaethau eraill	53
Gweinyddu cyffredinol	Gwasanaethau eraill	54
Draenio	Gwasanaethau eraill	55
Y Parciau Cenedlaethol	Gwasanaethau eraill	56
Grant Amddifadedd	Grant Amddifadedd	57
Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	CTRS	58
Menter Benthycu Llywodraeth Leol - Gwella Priffyrdd	SSA Anghyfredol	59
Menter Benthycu Llywodraeth Leol - Ysgolion yr 21ain Ganrif	SSA Anghyfredol	60
Cyllido Dyledion	SSA Anghyfredol	61
Ariannu Asedau	SSA Anghyfredol	62
 Cyfansymiau Sector		
Ysgolion Prif Ffrwd		63
Gwasanaethau Ysgolion Eraill		64
Addysg Barhaus		65
Addysg arall		66
Gwasanaethau Ysgolion		67
Addysg arall		68
Cyfanswm Addysg		69
PSS		70
Trafnidiaeth		71
Tân		72
Gwasanaethau eraill		73
Cynlluniau Gostwng y Dreth Gyngor (CTRS)		74
Grant Amddifadedd		75
SSA cyfredol		76
SSA Anghyfredol		77
Cyfanswm SSA		78
Ffigur 1: Dadansoddiad o'r Asesiad o Wariant Safonol cyfredol, fesul awdurdod, 2017-18		80
Ffigur 2: Sectorau SSA cyfredol y pen, fesul awdurdod, 2017-18		81
 Atodiad A Gwerthoedd y newidynnau unigol a ddefnyddiwyd yn y model SSA.		82-98
Atodiad B Y dangosyddion a roddwyd yn Atodiad A wedi'u cyfleu ar ffurf canran o werth Cymru, a'u defnyddio i gyfrifo gwerth y prif ddangosyddion angen.		100-116
Atodiad C Y symiau ariannol a ddefnyddiwyd i gyfrifo SSA y Sector Cyllido Dyledion; a'r cyfrifiadau cefndirol.		118-120
Atodiad D Crynodeb o gyfrifiadau'r Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (GCF), gan gynnwys dadansoddiad o GCF 2017-18 a manylion y data a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo.		121-126
 Mynegai ar gyfer dangosyddion a ddefnyddiwyd yn y model		127-130
Ffigur 3: Cydgasglu elfennau SSA i gategorïau dangosydd angen		130

CRYNODEB O WYBODAETH AR GYFER ASESIADAU O WARIANT SAFONOL 2017-18

Rhagair

Dyma gyhoeddiad blynyddol a adwaenir yn gyffredin fel y "Llyfr Gwyrdd". Mae'n rhoi gwybodaeth gefndir a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r setliadau refeniw a chyfalf ar gyfer awdurdodau unedol a heddluoedd yng Nghymru. Mae'n rhan bwysig o bolisi Llywodraeth Cymru i greu mwy o dryloywder wrth gyhoeddi'r Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol blynyddol.

Casgliad o dablau a gwybodaeth yw'r deunydd yn y cyhoeddiad hwn, a fwriadwyd i'w defnyddio fel gwybodaeth gefndirol gyffredinol er mwyn cyfrifo Asesiadau o Wariant Safonol (SSAs) ar gyfer 2017-18. Cydymaith ystadegol i Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol 2017-18 ydyw. Mae'n rhoi'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer cyfrifo'r SSAs ar gyfer awdurdodau unedol a heddluoedd yng Nghymru, a gwybodaeth fanwl am y dull o gyfrifo SSAs ar gyfer awdurdodau unedol.

Mae'n bwysig deall bod y crynodeb hwn yn dangos SSAs awdurdodau unedol wedi'u dadansoddi i gategoriâu gwasanaeth. Unig bwrpas y dadansoddiad hwn yw cyfrifo cyfanswm yr SSA. Mae gallu awdurdodau unedol a chyrrff yr heddlu i bennu eu blaenoriaethau gwario eu hunain yn parhau i fod yn rhan bwysig o system ddosbarthu Grant Cynnal Refeniw (RSG) Cymru. Felly, ni fwriedir i'r IBAs gwasanaeth a ddangosir yn y cyhoeddiad hwn gael eu defnyddio i bennu'r gwariant a gyllidwyd gan awdurdodau unigol ar gyfer gwasanaethau neilltuol.

Mae'r rhan fwyaf o'r ffigurau a nodwyd yn y llyfr hwn wedi'u talgrynnu. Gan hynny, efallai na fydd y symiau a'r cyfrifiadau a ddangosir yn ymddangos fel pe baent yn gwbl hafal i'r ffigurau yn y tablau. Mae'r cyfrifiadau yn y modelau SSA yn defnyddio data sydd heb ei dalgrynnu yn bennaf.

Cefndir

Cesglir y data a ddefnyddir i gyfrifo dosbarthiad yr SSA ar draws y meysydd gwasanaeth o ffynonellau amrywiol, bob blwyddyn gan amlaf. Yr eithriadau i hyn yw'r data ar aneddiadau a'r gwasgariad, sydd yn seiliedig ar Gyfrifiadau 1991 a 2001, a detholiad o ddangosyddion o Gyfrifiadau 2001 a 2011. Cesglir data arall yn uniongyrchol oddi wrth awdurdodau, gan gynnwys data ar nifer y disgyblion, y ceisiadau cynllunio, yr unedau golau stryd, hydoedd y ffyrdd, hyd yr arfordir, digartrefedd a thai. Darperir data ar nifer yr anheddau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisiu ynghyd â data ar safleoedd bwyd a masnachu. Caiff ffigurau rhagamcanol ar gyfer poblogaeth awdurdodau lleol eu paratoi gan Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Mewn nifer fach o achosion, defnyddir y gwariant gwirioneddol, neu'r amcangyfrif gorau o wariant ar wasanaeth, lle bo'r gwariant wedi'i bennu ymlaen llaw, ac nad yw dan reolaeth uniongyrchol yr awdurdodau. Mae'r ardollau ar gyfer draenio a'r Parciau Cenedlaethol yn enghreifftiau o hyn.

Cafodd y fformiwlâu ar gyfer yr holl wasanaethau eu hadolygu cyn Setliad 2001-02 yn dilyn argymhellion a wnaed mewn adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe a Pion Economics. Cafodd yr argymhellion eu hymgorffori yn setliad 2001-02 ac mewn setliadau dilynol wrth gwblhau'r dadansoddiadau angenrheidiol, drwy fecanwaith yr Is-grŵp Dosbarthu (DSG).

Gweithgor technegol yw'r DSG sydd yn gweithredu o dan Gyngor Partneriaeth Cymru. Mae ei aelodau'n cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, swyddogion llywodraeth leol a ddewiswyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac arbenigwyr annibynnol. Bob blwyddyn, bydd y DSG yn cadw at gylch gwaith a rhaglen waith gytunedig sydd yn edrych ar rai o sectorau'r Setliad yn ogystal â meysydd o ddiddordeb penodol, er enghraifft, materion dosbarthu sydd yn gysylltiedig â grantiau penodol sydd dan ystyriaeth i'w trosglwyddo i'r RSG.

CANLLAW CEFNDIROL I ASESIADAU O WARIANT SAFONOL

Cyflwyniad

1. Bwriedir i Asesiadau o Wariant Safonol adlewyrchu amrywiaeth yn yr angen am wariant, a gellid disgwyl hynny pe bai'r holl awdurdodau'n ymateb mewn ffordd debyg i'r galw am wasanaethau yn eu hardal. Dyma'r mecanwaith ar gyfer dosbarthu Grant Cynnal Refeniw (RSG) i awdurdodau unedol a heddluoedd a fyddai'n eu galluogi i godi'r un dreth gyngor am ddarparu gwasanaeth o safon debyg. Ymdrinnir isod â'r fethodoleg ar gyfer awdurdodau unedol, ond mae egwyddorion tebyg yn berthnasol wrth ddosbarthu cyllid i heddluoedd.

SSAs a Chyllidebau

2. Ar raddfa Cymru gyfan, mae cyfanswm yr SSAs yr un peth â chyfanswm cyllidebau tybiedig awdurdodau Cymru. Mae hyn yn golygu bod penderfyniadau ynghylch y cynnydd sylfaenol mewn cyllid gan y llywodraeth ganolog a'r swm gwirioneddol tybiedig a godir drwy'r dreth gyngor, yn dylanwadu ar y cyfanswm cyffredinol. Efallai y bydd cyllideb wirioneddol awdurdod yn uwch neu'n is na'i SSA, gan mai mater i bob awdurdod yw penderfyniadau ynghylch lefelau gwasanaeth a ddarperir.

Cyllido'r SSA

3. Mae cyllid yr SSA yn cynnwys tair elfen.

$$SSA = NDR + CT + RSG$$

NDR yw dyraniad awdurdod o ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu. Yng Nghymru, mae hyn yn seiliedig ar gyfran yr awdurdod o'r boblogaeth 18 oed a throsodd.

CT yw cyfanswm yr incwm tybiannol o'r dreth gyngor yn seiliedig ar ffigur treth gyngor safonol wedi'i luosi â nifer yr anheddau o fewn yr awdurdod. Mae'r ffigur safonol ar gyfer y dreth gyngor ym Mand D yr un peth ar gyfer yr holl awdurdodau, ac fe'i gelwir yn **Dreth Gyngor ar gyfer Gwariant Safonol (CTSS)**. Fe'i cyfrifir ar sail Cymru gyfan drwy ganfod y gwahaniaeth rhwng SSAs cyfanredol a'r ffigurau cyfanredol sydd ar gael ar gyfer dosbarthiad yr RSG a'r NDR, a rhannu hynny â nifer yr anheddau yng Nghymru. Gelwir nifer yr anheddau a ddefnyddir yn **sylfaen drethu**, ac i bob pwrpas, dyma nifer yr anheddau cyfwerth â Band D o fewn yr awdurdod sydd yn gorfod talu'r dreth gyngor, wedi'i addasu ar sail nifer yr adeiladau ym mhob band treth gyngor. Cyflwynir y ffigur ar ffurf nifer yr adeiladau ym Mand D y dreth gyngor. Mae'r sylfaen drethu felly'n amrywio rhwng awdurdodau'n dibynnu ar nifer a gwerth yr eiddo ym mhob ardal. Ffigur tybiannol yw **CTSS**, gan fod yr holl awdurdodau lleol yn cyllidebu i gasglu llai o dreth gyngor nag y gellid ei chasglu o'u sylfaen drethu lawn, a chan fod gwariant awdurdodau'n uwch neu'n is na'r SSA. Ariennir gwariant uwch na'r SSA yn gyfan gwbl o'r dreth gyngor ac o ffynonellau incwm lleol eraill.

Swm "cydbwysu" yw'r **RSG**, sydd yn ychwanegu at y symiau sydd ar gael o'r NDR a'r Dreth Gyngor, ac sy'n galluogi awdurdod i wario'n unol â'i SSA.


Cydrannau Unigol yr SSA

4. I ddibenion cyfrifo dyraniadau SSA unigol, dadansoddir gwariant refeniw net y llywodraeth leol i 49 o feysydd gwasanaeth tybiannol. Pennir dull dosbarthu ar wahân ar gyfer pob un o'r meysydd gwasanaeth hyn er mwyn dosbarthu'r cyfanswm ar gyfer y gwasanaeth ar draws yr awdurdodau. Mae'r dulliau dosbarthu wedi'u rhannu i ddau gategori:
 - Fformiwla sy'n seiliedig ar ddangosyddion angen
 - Dosbarthiad sydd yn seiliedig ar wariant gwirioneddol neu amcangyfrifon o wariant.
5. Mae'r holl gydrannau "heb eu neilltuo" - ffigurau tybiannol yr ydynt a ddefnyddir fel blociau i adeiladu'r SSA cyffredinol: **nid ydynt yn cynrychioli targedau gwariant ar gyfer gwasanaethau unigol, ac ni fwriedir iddynt ragnodi gwariant o gwbl.**

Diffinio Cyfansymiau Gwasanaeth

6. Rhennir y cyfanswm sydd ar gael i'w ddosbarthu fel SSA i ddwy elfen:
 - *gwariant cyfredol* - y swm tybiannol sydd ar gael ar gyfer gwariant ar wasanaethau refeniw cyfredol, ee, costau addysgu
 - *gwariant anghyfredol* - y swm tybiannol sydd ar gael i gyllido dyledion a chydannau eraill anghyfredol. Yn 2004-05, cyflwynwyd y system benthycu darbodus i ddisodli'r system cymeradwyo credyd.
7. Caiff cyfansymiau ar gyfer cydrannau anghyfredol eu cyfrifo ar raddfa Cymru gyfan y tu allan i fformiwla'r SSA, ac maent yn seiliedig ar y symiau y mae awdurdodau wedi'u benthycu yn y gorffennol plws unrhyw ddyled newydd. Cyfrifir y cyfanswm ar gyfer gwariant cyfredol (yr SSA cyfredol) drwy ddidynnu hyn o'r cyfanswm cyffredinol. Gelwir y gwasanaethau sydd yn rhan o'r SSA cyfredol eu gelwir yn 'wasanaethau cyfredol'.
8. Mae cyfansymiau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau cyfredol yn deillio o'r data alldro diweddaraf sydd ar gael ar gyfer gwariant. Defnyddiwyd data gwariant alldro 2015-16 ar gyfer cyfrifiadau setliad 2017-18.
9. Nid oes data gwariant alldro perthnasol ar gyfer rhai swyddogaethau awdurdod lleol, er enghraifft y rhai sydd wedi bodoli ers llai na dwy flynedd. Mae gan y gwasanaethau sydd yn ymwneud â'r swyddogaethau hyn gyfansymiau wedi'u diffinio, sy'n cael eu bwydo i gyfrifiad yr SSA, ac a elwir yn **ffigurau gwirioneddol**. Ar wahân i hyn, maent yn cael eu trin yn yr un modd â gwasanaethau eraill. Maent yn cynrychioli cyfran fechan o gyfanswm SSA yr awdurdod unedol (5.8% ar gyfer 2017-18).
10. Didynnir cyfansymiau ar gyfer 'ffigurau gwirioneddol' o gyfanswm yr SSA cyfredol. Dosberthir y swm sydd yn weddill ymhlith y gwasanaethau eraill, yn dibynnu ar eu cyfran o'r alldro. Ceir dadansoddiad o'r cyfanswm ac o'r SSA cyfredol yn Ffigur 1.
11. Mae seilio'r dull hwn ar wasanaethau yn fodd i leihau effaith penderfyniadau gwario awdurdodau unigol ar ddosbarthiad yr SSA. Dim ond rhan o gyfanswm terfynol yr SSA yw pob gwasanaeth, ac ar gyfer pob gwasanaeth, nid yw elfen pob awdurdod unedol ond wedi'i bennu yn nhermau dangosydd angen.

Ffigur 1: Dadansoddiad o'r cyfanswm ac o'r SSA cyfredol ar gyfer 2017-18



Mae cyfansymiau gwariant alldro gwasanaethau wedi'u graddio i sicrhau bod y swm yn hafal i'r cyfanswm ar gyfer blwyddyn y Setliad.

Dosbarthu drwy ddefnyddio fformiwla sy'n seiliedig ar ddangosyddion angen

12. Dosberthir y rhan fwyaf o wasanaethau ar sail fformiwla sydd yn cynnwys dangosyddion angen. Defnyddir dangosyddion angen yn hytrach na dulliau uniongyrchol o fesur y defnydd o wasanaethau, fel nad oes modd i awdurdodau gael dylanwad uniongyrchol ar eu SSAs, ac ar swm y grant y maent yn ei dderbyn yn sgil hynny. Mae'r dangosyddion a ddefnyddir yn y fformiwlâu yn perthyn i dri chategori.

- Prif grŵp cleientiaid - Y prif ffactor sy'n dylanwadu ar y gost, ee. poblogaeth, niferoedd disgyblion neu hyd ffyrdd.
- Amddifadedd - Dangosyddion i adlewyrchu'r gost ychwanegol o ddarparu gwasanaethau i boblogaethau lle ceir lefelau uwch o amddifadedd, e.e. derbynwyr cymhorthdal incwm, pobl â salwch hirdymor.
- Gwasgariad y boblogaeth - Dangosyddion i adlewyrchu cost ychwanegol darparu gwasanaethau i boblogaethau mewn ardaloedd llai poblog. Datblygwyd dulliau o fesur gwasgariad y boblogaeth i'w defnyddio'n benodol ar gyfer Setliad Llywodraeth Leol Cymru, ar sail patrwm aneddiadau yng Nghymru.

13. Cafodd y fformiwlâu ar gyfer yr holl wasanaethau eu hadolygu cyn Setliad 2001-02 yn dilyn adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe a Pion Economics. Cafodd argymhellion y gwaith hwn eu gweithredu yn setliadau 2001-02 ac mewn setliadau dilynol. Cynhaliwyd adolygiad mawr o brif fformiwlâu PSS yn 2004, gyda'r fformiwlâu newydd ar gyfer 'plant a phobl ifanc' a 'gwasanaethau i oedolion hŷn yn cael eu hymgorffori yn Setliad 2005-06, ac ar gyfer 'oedolion iau' yn setliad 2007-08.
14. Defnyddiwyd dulliau modelu ystadegol yn bennaf i greu'r fformiwlâu, ond nid oedd modd gwneud hynny ar gyfer ambell wasanaeth, gan fod y patrwm gwariant ar draws awdurdodau yn amrywio i'r fath raddau, fel bod angen datblygu fformiwla yn seiliedig ar farn ddeallus. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer gwasanaethau newydd, lle nad oes data gwariant ar gael, fel bo modd defnyddio modelau ystadegol i greu fformiwla.
15. Nid oes gan rai gwasanaethau eu fformiwla eu hunain, ond fe'u dosberthir ar sail fformiwla gwasanaeth cysylltiedig. Bydd hyn yn digwydd yn aml yn achos gwasanaeth newydd pan nad yw patrymau gwariant yn hysbys eto, felly defnyddir fformiwla'r gwasanaeth sydd yn fwyaf tebyg i'r gwasanaeth newydd. Defnyddir y dull hwn hefyd ar gyfer rhai swyddogaethau cyffredinol, fel gweinyddu, a ddosberthir ar sail gwasanaethau perthnasol, ee, dosberthir gweinyddiaeth addysg ar sail yr SSAs ar gyfer yr holl wasanaethau addysg.
16. Rhestrir cyfran y cyllid ar gyfer pob awdurdod ar ffurf canran yn yr adrannau ar Asesiadau ar Sail Dangosydd (IBAs) ar gyfer gwasanaethau a sectorau. Dengys hyn y pwysoliad a roddwyd i bob awdurdod ar sail y Prif Ddangosydd Cyfansawdd (CPI). Cyfrifir y CPI drwy luosi gwerth dangosydd pob awdurdod â'r pwysoliad a ddangosir yn y fformiwla. Ailadroddir hyn ar gyfer pob rhan o'r fformiwla, gan greu cyfanswm wedyn o'r gwerthoedd canlyniadol. Caiff y cyfanswm ei rannu â'r gwerth ar gyfer Cymru a'i ddefnyddio i gyfrifo cyfran ganrannol y cyllid ar gyfer pob awdurdod.
17. Caiff elfen cyllido cyfalaf SSA awdurdod ei modelu ar wahân. Cyflwynwyd y system benthycu darbodus yn 2004-05. Bydd dyled a ysgwyddwyd o ganlyniad i fenthyciadau a gymeradwywyd gan y llywodraeth ar gyfer prosiectau cyfalaf a oedd ar waith ar 31 Mawrth 2004 yn cael eu diddymu ar sail balans sydd yn gostwng dros 25 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru'n asesu pa fenthyciadau newydd y mae'n barod i'w cefnogi, ac yn cynnwys hyn yn y cyfrifiadau, ynghyd â dyled a ysgwyddwyd eisoes o ganlyniad i fenthyciadau a gymeradwywyd gan y llywodraeth. Ceir hefyd addasiadau ar gyfer grantiau a ddarparwyd gan y llywodraeth ganolog i ddibenion cyllido cyfalaf.

Dosbarthu drwy ddefnyddio gwariant

18. Mewn nifer fach o achosion, defnyddir y gwariant gwirioneddol ar wasanaeth (neu'r amcangyfrif gorau posib o hynny). Dyma fydd yn digwydd pan fo'r gwariant wedi'i bennu ymlaen llaw, a heb fod o dan reolaeth uniongyrchol yr awdurdod. Mae ardollau draenio a'r Parciau Cenedlaethol yn enghreifftiau o hyn.

Crynodeb

19. Cyfrifir cyfanswm SSA awdurdod fel swm yr SSA Cyfredol a'r elfennau cyllido dyledion.
20. Mae'r canlynol yn creu sail ar gyfer y system.
 - Pennir maint cyffredinol y Setliad ar sail cyfansymiau rheolaeth y llywodraeth.
 - Pennir pwysau cymharol y gwasanaethau yn ôl patrymau gwariant gwirioneddol ar raddfa Cymru gyfan.
 - Defnyddir dangosyddion gwrthrychol o angen cymharol awdurdodau i wario er mwyn penderfynu ar ddosbarthiad o fewn gwasanaethau fel arfer.
 - Nid targedau gwariant ar gyfer awdurdodau yw SSAs a gwasanaethau cydrannol. Nid ydynt ond yn gyfrwng i ddosbarthu grant.

CYLLID ATODOL YCHWANEGOL AR GYFER 2017-18

Mae unrhyw gyllid ychwanegol wedi cael ei gynnwys ar ôl cyfrifiadau'r SSA. Nid yw felly wedi'i adlewyrchu yn unrhyw un o'r Asesiadau ar Sail Dangosyddion, ac mae'n annibynnol o gyfrifiadau'r SSA. Mae rhaglen Llywodraeth Cymru '*Symud Cymru Ymlaen 2016-2021*' yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu cyllid er mwyn rhoi mewn lle 'llawr' ar gyfer setliadau llywodraeth leol yn y dyfodol. Ar gyfer Setliad 2017-18, mae cyllid atodol ychwanegol wedi ei ychwanegu at Gyllid Allanol Cyfun i sicrhau na fydd unrhyw awdurdod yn wynebu gostyngiad o fwy na 0.5 y cant. Mae'r tablau crynhoi yn y cyhoeddiad hwn yn cynnwys y cyllid atodol ychwanegol.

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-18**RHAGDYBIAETHAU CYFFREDINOL 2017-18**

(Nodir y symiau mewn £m oni nodir fel arall)

	Ffigurau Setliad Terfynol
	Cyfanswm
Cyllid Allanol Cyfun (AEF)	4,253.290
plws Incwm y Dreth Gyngor	1,554.463
Is-gyfanswm	5,807.754
plws Grant yr heddlu (gan gynnwys cyllid gwaelod)	211.234
Is-gyfanswm (yr holl gyllidebau)	6,018.987
llai Cyrff penodedig	2.598
llai Cyngorau cymuned	38.184
llai Rhyddhad ardrethi dewisol	3.425
Is-gyfanswm = Cyllidebau sylfaen	5,974.781
yn SSAs awdurdod	5,503.184

SSA CYFANREDOL

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-18

DADGYFUNO SSA RHWNG HAENAU

(Nodir y symiau mewn £m oni nodir fel arall)

	Awdurdod Unedol	Heddlu	Cyfanswm
1. Ffigurau nad ydynt yn rhai gwirioneddol ar gyfer 2017-18	4,860.134	256.703	5,116.837
2. Ffigurau Gwirioneddol ar gyfer 2017-18 ¹			
Grant Amddifadedd	22.000		22.000
Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	244.000		244.000
Y Parciau Cenedlaethol	3.175		3.175
Draenio	1.144		1.144
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – Cymhorthdal Gweinyddu	4.770		4.770
Cynyddu Terfyn Cyfalaf ar gyfer Gofal Preswyl	4.500		4.500
Atal Digartrefedd	6.000		6.000
Cyfanswm gwirioneddol	285.589		285.589
3. Cyfanred o SSA cyfredol	5,145.722	256.703	5,402.426
4. Eitemau Anghyfredol			
Menter Benthycia Llywodraeth Leol - Gwella Priffyrdd ¹	12.000		12.000
Ariannu Asedau ¹	28.048		28.048
Menter Benthycia Llywodraeth Leol - Ysgolion yr 21ain Ganrif ¹	10.000		10.000
Cyllido Dyledion	307.414	3.661	311.075
Cyfanswm Anghyfredol	357.461	3.661	361.122
5. Cyfanred haenau o SSA	5,503.184	260.364	5,763.548
Cyfrannau'r haenau (%)	95.48	4.52	

¹ Mae'r rhain yn cynrychioli'r gwasanaethau ble nad yw gwariant alldro yn cael ei ddefnyddio i bennu'r Asesiad ar Sail Dangosyddion (IBA). Gweler y cyfeiriad at ffigurau gwirioneddol ym mharagraff 9 o'r cyflwyniad am fanylion pellach (tud vii). Caiff pob gwasanaeth ei gynrychioli ar ffurf Dangosydd Asesiad ar Sail Dangosyddion (IBA), Gweler IBA y Gwasanaeth perthnasol er mwyn gweld dosbarthiad fesul Awdurdod Unedol.

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-18**DADGYFUNO RSG AC ARDRETHI ANNOMESTIG RHWNG HAENAU**

(Nodir y symiau mewn £m oni nodir fel arall)

1.	Cyllid Allanol Cyfun (AEF)	4,253.290		
	llai Swm o NDR y gellir ei ddosbarthu	1,059.000		
2.	Cyfanswm y Grant Cynnal Refeniw (RSG)	3,194.290		
	llai Taliadau i gyrff penodedig	2.598		
3.	RSG ar gael i'w ddosbarthu i Awdurdodau Unedol a'r Heddlu	3,191.693		
4.	AEF Dosbarthadwy	4,250.693		
	Ychwanegiad Cyllid	1.628		
5.	Incwm y dreth gyngor ar wariant safonol	1,512.855		
6.	Ymraniad yr Haenau	<u>Awdurdod Unedol</u>	<u>Heddlu</u>	<u>Cyfanswm</u>
	Cyfanred SSA	5,503.184	260.364	5,763.548
	Grant yr heddlu £m		211.234	211.234
	SSA a grant yr heddlu £m	5,503.184	471.598	5,974.781
	% o'r cyfanswm	92.11%	7.89%	100.00%
	AEF Dosbarthadwy	4,111.993	138.700	4,250.693
	Ardrethi Annomestig (£m) ¹	1,006.050	52.950	1,059.000
	Cyfran o Ardrethi Annomestig (£ miliwn)	95.00%	5.00%	100.00%
	RSG i'w ddosbarthu (£m)	3,105.943	85.750	3,191.693
	Incwm y dreth gyngor ar wariant safonol	1,391.191	121.664	1,512.855
	Sylfaen drethu (miliwn cyfwerth â band D) ²	1.229	1.232	
	CTSS ar gyfer 2017-18 (£)	1,132.25	98.77	

¹ Mae cyfansymiau haenau'r ardrethi annomestig wedi'u cyfrifo i greu ymraniad o 95% i'r Awdurdodau Unedol a 5% i'r Heddlu² Amcangyfrifon sylfaen drethu 2017-18 wedi tynnu premiymau a ddefnyddiwyd ar gyfer Awdurdodau Unedol, ac amcangyfrifon sylfaen drethu yn cynnwys premiymau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr Heddlu.

SSA CYFANREDOL

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-18

DARLUN O'R SSA CYFANREDOL

DARPARIAETH REFENIW LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU 2017-18

Ariannu (£m)		Gwariant (£m)	
Incwm y dreth gyngor a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r dreth gyngor ar gyfer gwariant safonol £1,512.9	Incwm y Dreth Gyngor £1,512.9	SSA Anghyfredol £361.1	Cyfanred SSAs £5,763.5
	Ardrethi annomestig £1,059.0		
	Grant Cynnal Refeniw i'w ddosbarthu i awdurdodau £3,191.7	SSA cyfredol £5,402.4	
Cyllid Allanol Cyfun plws Ychwanegiad Cyllid £4,466.2	Taliadau i gyrff penodedig £2.6	Taliadau i gyrff penodedig £2.6	
	Grant penodol yr heddlu £211.2	Grant penodol yr heddlu £211.2	
	Cyllid Atodol Ychwanegol £1.6		

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-2018

Crynodeb o'r SSA a'i gydrannau

<i>£ oedd</i>						
Awdurdod Unedol	Asesiad o Wariant Safonol ¹	Grant Cynnal Refeniw (RSG)	Grant yr Heddlu (gan gynnwys cyllid gwaelodol) ²	Cyfran o'r Ardrethi Annomestig	Incwm y Dreth Gyngor ³	Cyllid Atodol Ychwanegol ⁴
Ynys Môn	127,452,923	69,650,261	.	23,002,135	34,800,528	.
Gwynedd	226,413,479	128,512,657	.	40,450,880	57,449,942	.
Conwy	207,919,271	112,027,126	.	38,530,134	57,362,011	.
Sir Ddinbych	185,620,009	109,859,910	.	30,613,876	45,146,223	.
Sir y Fflint	257,526,044	135,344,736	.	49,688,211	72,493,097	.
Wrecsam	230,510,101	125,819,223	.	43,627,561	61,063,317	.
Powys	239,308,538	124,940,493	.	43,850,658	70,517,387	1,236,508
Ceredigion	134,234,655	72,636,927	.	25,299,866	36,297,862	.
Sir Benfro	219,606,883	116,465,796	.	40,310,020	62,831,067	.
Sir Gaerfyrddin	335,322,503	191,881,244	.	60,295,062	83,146,198	.
Abertawe	414,594,641	231,169,116	.	79,531,427	103,894,098	.
Castell-nedd Port Talbot	262,581,319	161,547,001	.	46,023,812	55,010,507	.
Pen-y-bont ar Ogwr	248,593,414	141,610,389	.	46,027,476	60,955,549	.
Bro Morgannwg	216,807,453	108,577,457	.	40,976,459	67,253,537	.
Rhondda Cynon Taf	442,518,434	279,035,343	.	76,412,149	87,070,942	.
Merthyr Tudful	109,683,447	69,306,691	.	19,065,380	21,311,376	391,113
Caerffili	333,301,263	205,958,780	.	57,668,386	69,674,097	.
Blaenau Gwent	133,102,417	86,302,286	.	22,676,854	24,123,276	.
Torfaen	166,924,130	99,423,778	.	29,607,499	37,892,853	.
Sir Fynwy	143,879,865	61,380,064	.	30,418,870	52,080,932	.
Casnewydd	274,652,566	161,757,463	.	46,492,803	66,402,300	.
Caerdydd	592,630,381	312,736,078	.	115,480,482	164,413,821	.
Yr Heddlu						
Dyfed-Powys	35,150,542	3,935,213	36,442,926	8,934,506	22,280,823	.
Gwent	52,407,255	20,747,833	40,903,987	9,834,969	21,824,453	.
Gogledd Cymru	50,620,514	10,016,498	49,820,877	11,890,147	28,713,869	.
De Cymru	122,185,846	51,050,456	84,065,727	22,290,378	48,845,012	.
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	5,503,183,736	3,105,942,819	.	1,006,050,000	1,391,190,917	1,627,621
Cyfanswm yr heddluoedd	260,364,157	85,750,000	211,233,517	52,950,000	121,664,157	.
Cyfanswm Cymru	5,763,547,893	3,191,692,819	211,233,517	1,059,000,000	1,512,855,074	1,627,621

¹ Nid yw Cyllid Atodol Ychwanegol wedi'i gynnwys yn yr SSA, ac fe'i darparwyd i Bowys a Merthyr Tudful yn unig² Nid yw Grant yr Heddlu yn berthnasol i Awdurdodau Unedol³ Gan dybio bod gwariant yn unol â lefel yr SSA

. Nid yw'r eitem data yn berthnasol

TABLAU CRYNHOI

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-2018

Crynodeb o'r SSA a'i gydrannau mewn £ fesul pen o'r boblogaeth ¹

<i>£ oedd y pen</i>						
Awdurdod Unedol	Asesiad o Wariant Safonol ²	Grant Cynnal Refeniw (RSG)	Grant yr Heddlu (gan gynnwys cyllid gwaelodol) ³	Cyfran o'r Ardrethi Annomestig	Incwm y Dreth Gyngor *	Cyllid Atodol Ychwanegol ²
Ynys Môn	1,816	993	.	328	496	.
Gwynedd	1,836	1,042	.	328	466	.
Conwy	1,781	960	.	330	491	.
Sir Ddinbych	1,947	1,152	.	321	474	.
Sir y Fflint	1,665	875	.	321	469	.
Wrecsam	1,664	908	.	315	441	.
Powys	1,811	946	.	332	534	9
Ceredigion	1,764	955	.	332	477	.
Sir Benfro	1,772	940	.	325	507	.
Sir Gaerfyrddin	1,805	1,033	.	325	448	.
Abertawe	1,700	948	.	326	426	.
Castell-nedd Port Talbot	1,861	1,145	.	326	390	.
Pen-y-bont ar Ogwr	1,745	994	.	323	428	.
Bro Morgannwg	1,692	847	.	320	525	.
Rhondda Cynon Taf	1,859	1,172	.	321	366	.
Merthyr Tudful	1,853	1,171	.	322	360	7
Caerffili	1,844	1,139	.	319	385	.
Blaenau Gwent	1,915	1,242	.	326	347	.
Torfaen	1,816	1,082	.	322	412	.
Sir Fynwy	1,551	662	.	328	561	.
Casnewydd	1,853	1,091	.	314	448	.
Caerdydd	1,629	860	.	318	452	.
Yr Heddlu						
Dyfed-Powys	68	8	70	17	43	.
Gwent	90	36	70	17	37	.
Gogledd Cymru	72	14	71	17	41	.
De Cymru	93	39	64	17	37	.
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	1,766	997	.	323	446	1
Cyfanswm yr heddluoedd	84	28	68	17	39	.
Cyfanswm Cymru	1,849	1,024	68	340	485	1

¹ Gan ddefnyddio rhagamcanion poblogaeth 2017 sydd yn seiliedig ar 2014

² Nid yw Cyllid Atodol Ychwanegol wedi'i gynnwys yn yr SSA, ac fe'i darparwyd i Bowys a Merthyr Tudful yn unig

³ Nid yw Grant yr Heddlu yn berthnasol i Awdurdodau Unedol

* Gan dybio bod gwariant yn unol â lefel yr SSA

. Nid yw'r eitem data yn berthnasol

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-2018

Cymharu Cyfanswm yr SSA ar gyfer 2016-17 a 2017-18

£ oedd				
Awdurdod Unedol	Setliad 2016-2017 ¹	Setliad 2017-2018	Newid	Newid fel canran
Ynys Môn	125,347,280	127,452,923	2,105,643	1.7%
Gwynedd	221,838,893	226,413,479	4,574,586	2.1%
Conwy	204,382,133	207,919,271	3,537,138	1.7%
Sir Ddinbych	182,572,149	185,620,009	3,047,860	1.7%
Sir y Fflint	253,737,652	257,526,044	3,788,392	1.5%
Wrecsam	228,338,702	230,510,101	2,171,399	1.0%
Powys	236,065,322	239,308,538	3,243,216	1.4%
Ceredigion	131,150,686	134,234,655	3,083,969	2.4%
Sir Benfro	216,783,561	219,606,883	2,823,322	1.3%
Sir Gaerfyrddin	330,854,546	335,322,503	4,467,957	1.4%
Abertawe	407,273,740	414,594,641	7,320,901	1.8%
Castell-nedd Port Talbot	258,331,212	262,581,319	4,250,107	1.6%
Pen-y-bont ar Ogwr	245,462,265	248,593,414	3,131,150	1.3%
Bro Morgannwg	213,883,209	216,807,453	2,924,244	1.4%
Rhondda Cynon Taf	436,708,302	442,518,434	5,810,133	1.3%
Merthyr Tudful	109,475,850	109,683,447	207,597	0.2%
Caerffili	330,139,028	333,301,263	3,162,235	1.0%
Blaenau Gwent	132,323,515	133,102,417	778,902	0.6%
Torfaen	165,459,681	166,924,130	1,464,449	0.9%
Sir Fynwy	141,267,177	143,879,865	2,612,689	1.8%
Casnewydd	271,331,270	274,652,566	3,321,296	1.2%
Caerdydd	582,401,914	592,630,381	10,228,466	1.8%
Yr Heddlu				
Dyfed-Powys	34,487,577	35,150,542	662,965	1.9%
Gwent	51,418,809	52,407,255	988,446	1.9%
Gogledd Cymru	49,665,016	50,620,514	955,499	1.9%
De Cymru	119,882,047	122,185,846	2,303,800	1.9%
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	5,425,128,088	5,503,183,736	78,055,648	1.4%
Cyfanswm yr heddluoedd	255,453,448	260,364,157	4,910,709	1.9%
Cyfanswm Cymru	5,680,581,536	5,763,547,893	82,966,357	1.5%

¹ Dyraniadau gwirioneddol 2016-2017 - ni wneir addasiadau ar gyfer adnoddau ychwanegol yn 2017-2018

TABLAU CRYNHOI

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-2018

Cyllid Allanol Cyfun (AEF)¹ plws Cyllid atodol ychwanegol

Awdurdod Unedol	AEF 2017-2018 plws cyllid atodol	
	£	Canran yr SSA
Ynys Môn	92,652,396	72.7%
Gwynedd	168,963,537	74.6%
Conwy	150,557,260	72.4%
Sir Ddinbych	140,473,786	75.7%
Sir y Fflint	185,032,947	71.9%
Wrecsam	169,446,784	73.5%
Powys	170,027,659	71.0%
Ceredigion	97,936,793	73.0%
Sir Benfro	156,775,816	71.4%
Sir Gaerfyrddin	252,176,306	75.2%
Abertawe	310,700,543	74.9%
Castell-nedd Port Talbot	207,570,813	79.1%
Pen-y-bont ar Ogwr	187,637,865	75.5%
Bro Morgannwg	149,553,916	69.0%
Rhondda Cynon Taf	355,447,492	80.3%
Merthyr Tudful	88,763,184	80.9%
Caerffili	263,627,166	79.1%
Blaenau Gwent	108,979,140	81.9%
Torfaen	129,031,277	77.3%
Sir Fynwy	91,798,934	63.8%
Casnewydd	208,250,266	75.8%
Caerdydd	428,216,560	72.3%
Yr Heddlu		
Dyfed-Powys	49,312,645	68.9%
Gwent	71,486,789	76.6%
Gogledd Cymru	71,727,522	71.4%
De Cymru	157,406,561	76.3%
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	4,113,620,440	74.7%
Cyfanswm yr heddluoedd	349,933,517	74.2%
Cyfanswm Cymru	4,463,553,957	74.7%

¹ Yn eithrio grantiau penodol ddim yn ymwneud a'r heddlu, a chyrrff penodol wedi eu brigdorri. Yn cynnwys Grant Cynnal Refeniw, ychwanegiad cyllid, cyfran o Ardrethi Annomestig a Grant yr Heddlu penodol

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-2018

Cymharu'r RSG rhwng 2016-17 a 2017-18

£ oedd				
Awdurdod Unedol	Setliad 2016-2017 ¹	Setliad 2017-2018 ²	Newid	Newid fel canran
Ynys Môn	70,619,353	69,650,261	-969,092	-1.4%
Gwynedd	129,792,374	128,512,657	-1,279,717	-1.0%
Conwy	113,776,996	112,027,126	-1,749,870	-1.5%
Sir Ddinbych	111,211,601	109,859,910	-1,351,691	-1.2%
Sir y Fflint	138,899,150	135,344,736	-3,554,414	-2.6%
Wrecsam	129,333,070	125,819,223	-3,513,847	-2.7%
Powys	127,943,853	124,940,493	-3,003,360	-2.3%
Ceredigion	72,874,710	72,636,927	-237,783	-0.3%
Sir Benfro	119,578,209	116,465,796	-3,112,413	-2.6%
Sir Gaerfyrddin	195,965,973	191,881,244	-4,084,729	-2.1%
Abertawe	234,542,708	231,169,116	-3,373,592	-1.4%
Castell-nedd Port Talbot	163,137,243	161,547,001	-1,590,242	-1.0%
Pen-y-bont ar Ogwr	145,232,718	141,610,389	-3,622,329	-2.5%
Bro Morgannwg	112,506,016	108,577,457	-3,928,559	-3.5%
Rhondda Cynon Taf	283,323,977	279,035,343	-4,288,634	-1.5%
Merthyr Tudful	71,628,847	69,306,691	-2,322,156	-3.2%
Caerffili	210,117,044	205,958,780	-4,158,264	-2.0%
Blaenau Gwent	88,249,332	86,302,286	-1,947,046	-2.2%
Torfaen	102,066,763	99,423,778	-2,642,985	-2.6%
Sir Fynwy	63,456,449	61,380,064	-2,076,385	-3.3%
Casnewydd	166,336,174	161,757,463	-4,578,711	-2.8%
Caerdydd	320,309,439	312,736,078	-7,573,361	-2.4%
Yr Heddlu				
Dyfed-Powys	4,618,196	3,935,213	-682,983	-14.8%
Gwent	21,044,031	20,747,833	-296,198	-1.4%
Gogledd Cymru	10,588,506	10,016,498	-572,008	-5.4%
De Cymru	51,655,976	51,050,456	-605,520	-1.2%
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	3,170,901,999	3,105,942,819	-64,959,180	-2.0%
Cyfanswm yr heddluoedd	87,906,709	85,750,000	-2,156,709	-2.5%
Cyfanswm Cymru	3,258,808,708	3,191,692,819	-67,115,889	-2.1%

¹ Dyraniadau gwirioneddol 2016-2017 - ni wneir addasiadau ar gyfer adnoddau ychwanegol yn 2017-2018² Nid yw'n cynnwys Cyllid Atodol Ychwanegol

TABLAU CRYNHOI

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-2018

Cymharu'r Ardrethi Annomestig rhwng 2016-17 a 2017-18

£ oedd

Awdurdod Unedol	Setliad 2016-2017	Setliad 2017-2018	Newid	Newid fel canran
Ynys Môn	21,308,694	23,002,135	1,693,441	7.9%
Gwynedd	37,158,385	40,450,880	3,292,495	8.9%
Conwy	35,643,524	38,530,134	2,886,610	8.1%
Sir Ddinbych	28,396,390	30,613,876	2,217,486	7.8%
Sir y Fflint	45,850,650	49,688,211	3,837,561	8.4%
Wrecsam	40,434,616	43,627,561	3,192,945	7.9%
Powys	40,525,455	43,850,658	3,325,203	8.2%
Ceredigion	23,699,152	25,299,866	1,600,714	6.8%
Sir Benfro	37,315,563	40,310,020	2,994,457	8.0%
Sir Gaerfyrddin	55,720,428	60,295,062	4,574,634	8.2%
Abertawe	73,224,066	79,531,427	6,307,361	8.6%
Castell-nedd Port Talbot	42,437,972	46,023,812	3,585,840	8.4%
Pen-y-bont ar Ogwr	42,282,679	46,027,476	3,744,797	8.9%
Bro Morgannwg	37,942,012	40,976,459	3,034,447	8.0%
Rhondda Cynon Taf	70,451,406	76,412,149	5,960,743	8.5%
Merthyr Tudful	17,559,799	19,065,380	1,505,581	8.6%
Caerffili	53,183,724	57,668,386	4,484,662	8.4%
Blaenau Gwent	21,003,008	22,676,854	1,673,846	8.0%
Torfaen	27,232,069	29,607,499	2,375,430	8.7%
Sir Fynwy	27,980,642	30,418,870	2,438,228	8.7%
Casnewydd	42,805,851	46,492,803	3,686,952	8.6%
Caerdydd	105,993,915	115,480,482	9,486,567	9.0%
Yr Heddlu				
Dyfed-Powys	8,276,874	8,934,506	657,632	7.9%
Gwent	9,063,436	9,834,969	771,533	8.5%
Gogledd Cymru	10,989,066	11,890,147	901,081	8.2%
De Cymru	20,520,624	22,290,378	1,769,754	8.6%
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	928,150,000	1,006,050,000	77,900,000	8.4%
Cyfanswm yr heddluoedd	48,850,000	52,950,000	4,100,000	8.4%
Cyfanswm Cymru	977,000,000	1,059,000,000	82,000,000	8.4%

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-2018

Y Newid Cyffredinol mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF) plws Cyllid Atodol ¹²

£ oedd

Newid i'r AEF Net plws Cyllid Atodol rhwng 2016-2017 a 2017-2018					
Awdurdod Unedol	Grant Cynnal Refeniw (RSG) a Grant yr Heddlu	Cyfran o'r Ardrethi Annomestig	Cyllid Atodol Ychwanegol	Cyfanswm	Canran
Ynys Môn	-969,092	1,693,441	0	724,349	0.8%
Gwynedd	-1,279,717	3,292,495	0	2,012,778	1.2%
Conwy	-1,749,870	2,886,610	0	1,136,740	0.8%
Sir Ddinbych	-1,351,691	2,217,486	0	865,795	0.6%
Sir y Fflint	-3,554,414	3,837,561	0	283,147	0.2%
Wrecsam	-3,513,847	3,192,945	0	-320,902	-0.2%
Powys	-3,003,360	3,325,203	-715,507	-393,664	-0.2%
Ceredigion	-237,783	1,600,714	-435,988	926,943	1.0%
Sir Benfro	-3,112,413	2,994,457	0	-117,956	-0.1%
Sir Gaerfyrddin	-4,084,729	4,574,634	0	489,905	0.2%
Abertawe	-3,373,592	6,307,361	0	2,933,769	1.0%
Castell-nedd Port Talbot	-1,590,242	3,585,840	0	1,995,598	1.0%
Pen-y-bont ar Ogwr	-3,622,329	3,744,797	0	122,468	0.1%
Bro Morgannwg	-3,928,559	3,034,447	0	-894,112	-0.6%
Rhondda Cynon Taf	-4,288,634	5,960,743	0	1,672,109	0.5%
Merthyr Tudful	-2,322,156	1,505,581	391,113	-425,462	-0.5%
Caerffili	-4,158,264	4,484,662	0	326,398	0.1%
Blaenau Gwent	-1,947,046	1,673,846	0	-273,200	-0.3%
Torfaen	-2,642,985	2,375,430	0	-267,555	-0.2%
Sir Fynwy	-2,076,385	2,438,228	-110,504	251,339	0.3%
Casnewydd	-4,578,711	3,686,952	0	-891,759	-0.4%
Caerdydd	-7,573,361	9,486,567	0	1,913,206	0.4%
Yr Heddlu					
Dyfed-Powys	-1,357,079	657,632	0	-699,447	-1.4%
Gwent	-1,785,497	771,533	0	-1,013,964	-1.4%
Gogledd Cymru	-1,918,460	901,081	0	-1,017,379	-1.4%
De Cymru	-4,002,399	1,769,754	0	-2,232,645	-1.4%
Cyfanswm Awdurdodau Unedol	-64,959,180	77,900,000	-870,886	12,069,934	0.3%
Cyfanswm yr heddluoedd	-9,063,436	4,100,000	0	-4,963,436	-1.4%
Cyfanswm Cymru	-74,022,616	82,000,000	-870,886	7,106,498	0.2%

¹ Ni wneir unrhyw addasiadau ar gyfer cyfrifoldebau neu drosglwyddiadau newydd yn 2016-17² Heb gynnwys grantiau penodol nad ydynt yn gysylltiedig â'r heddlu na chyrff penodedig, ond yn cynnwys Grantiau Heddlu penodol

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-2018

Gwasanaethau: Addysgu ysgolion Meithrin a Chynradd a gwasanaethau eraill

Awdurdod Unedol	IBA 2016-17 £000oedd	IBA 2017-18 £000oedd	Cyfran ganrannol 2017-18
Ynys Môn	24,180	23,821	2.36
Gwynedd	40,798	40,386	4.00
Conwy	34,218	33,751	3.34
Sir Ddinbych	33,065	32,923	3.26
Sir y Fflint	52,229	51,014	5.05
Wrecsam	46,400	45,952	4.55
Powys	42,726	41,901	4.15
Ceredigion	22,793	22,403	2.22
Sir Benfro	41,517	40,702	4.03
Sir Gaerfyrddin	63,037	62,079	6.14
Abertawe	75,790	75,023	7.42
Castell-nedd Port Talbot	46,562	46,042	4.56
Pen-y-bont ar Ogwr	46,486	46,310	4.58
Bro Morgannwg	43,849	43,676	4.32
Rhondda Cynon Taf	81,510	80,574	7.97
Merthyr Tudful	20,086	19,754	1.95
Caerffili	62,997	61,388	6.07
Blaenau Gwent	23,168	22,456	2.22
Torfaen	30,718	30,494	3.02
Sir Fynwy	27,244	26,588	2.63
Casnewydd	51,419	51,111	5.06
Caerdydd	112,730	112,243	11.11
Cymru	1,023,523	1,010,589	100.00

Fformiwla:

Pwysoliad:		Dangosydd:
0.815	x	Disgyblion ysgol cynradd a disgyblion ysgol feithrin a fodelwyd
0.098	x	Trothwy anheddiad 1,000
0.087	x	Disgyblion ysgol gynradd sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim

Gweler Atodiad A am werthoedd dangosyddion ac Atodiad B am gyfrannau canrannol

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-2018

Gwasanaethau: Addysgu mewn ysgolion uwchradd a gwasanaethau eraill

Awdurdod Unedol	IBA 2016-17 £000oedd	IBA 2017-18 £000oedd	Cyfran ganrannol 2017-18
Ynys Môn	17,650	17,450	2.15
Gwynedd	32,656	31,536	3.89
Conwy	29,439	28,869	3.56
Sir Ddinbych	29,667	29,060	3.59
Sir y Fflint	41,445	41,307	5.10
Wrecsam	31,528	30,673	3.79
Powys	34,204	32,968	4.07
Ceredigion	18,148	17,843	2.20
Sir Benfro	31,591	30,622	3.78
Sir Gaerfyrddin	51,513	50,838	6.28
Abertawe	62,121	61,545	7.60
Castell-nedd Port Talbot	39,528	39,121	4.83
Pen-y-bont ar Ogwr	39,142	38,329	4.73
Bro Morgannwg	36,733	36,175	4.47
Rhondda Cynon Taf	68,994	67,592	8.34
Merthyr Tudful	15,451	14,955	1.85
Caerffili	53,608	53,097	6.55
Blaenau Gwent	17,182	16,641	2.05
Torfaen	27,630	26,518	3.27
Sir Fynwy	20,088	19,937	2.46
Casnewydd	42,197	41,664	5.14
Caerdydd	84,226	83,309	10.28
Cymru	824,743	810,048	100.00

Fformiwla:

Pwysoliad:		Dangosydd:
0.777	x	Disgyblion ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 7 i 11
0.093	x	Disgyblion ysgol uwchradd sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
0.075	x	Disgyblion ysgol uwchradd ym mlynnyddoedd 10 i 11
0.055	x	Trothwy anheddiad 7,500

Gweler Atodiad A am werthoedd dangosyddion ac Atodiad B am gyfrannau canrannol

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-2018

Gwasanaethau: Addysg Arbennig

Awdurdod Unedol	IBA 2016-17 £000oedd	IBA 2017-18 £000oedd	Cyfran ganrannol 2017-18
Ynys Môn	4,855	4,865	2.26
Gwynedd	8,098	8,260	3.84
Conwy	7,644	7,641	3.56
Sir Ddinbych	6,786	6,892	3.21
Sir y Fflint	11,088	11,132	5.18
Wrecsam	9,916	9,872	4.59
Powys	8,576	8,482	3.95
Ceredigion	4,433	4,343	2.02
Sir Benfro	8,626	8,556	3.98
Sir Gaerfyrddin	13,126	12,977	6.04
Abertawe	15,330	15,458	7.19
Castell-nedd Port Talbot	10,091	10,044	4.67
Pen-y-bont ar Ogwr	9,726	9,763	4.54
Bro Morgannwg	8,821	8,892	4.14
Rhondda Cynon Taf	17,774	17,773	8.27
Merthyr Tudful	4,469	4,496	2.09
Caerffili	13,736	13,634	6.35
Blaenau Gwent	5,102	5,101	2.37
Torfaen	6,831	6,848	3.19
Sir Fynwy	6,067	6,067	2.82
Casnewydd	10,702	10,676	4.97
Caerdydd	22,772	23,106	10.75
Cymru	214,568	214,879	100.00

Fformiwla:

Pwysoliad:		Dangosydd:
0.800	x	Y boblogaeth 3 i 16 oed (rhagamcan)
0.100	x	Trothwy anheddiad 40,000
0.033	x	Plant dibynnol ar aelwydydd oedolion sengl
0.033	x	Plant dibynnol mewn teuluoedd heb waith
0.033	x	Plant dibynnol ar aelwydydd lle mae'r penteulu mewn dosbarth galwedigaethol isel

Gweler Atodiad A am werthoedd dangosyddion ac Atodiad B am gyfrannau canrannol

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-2018

Gwasanaethau: Gwasanaethau cludiant ysgolion Meithrin a Chynradd

Awdurdod Unedol	IBA 2016-17 £000oedd	IBA 2017-18 £000oedd	Cyfran ganrannol 2017-18
Ynys Môn	784	781	3.04
Gwynedd	1,482	1,495	5.83
Conwy	1,181	1,168	4.55
Sir Ddinbych	1,034	1,033	4.02
Sir y Fflint	1,060	1,042	4.06
Wrecsam	1,132	1,114	4.34
Powys	2,248	2,218	8.64
Ceredigion	1,337	1,314	5.12
Sir Benfro	1,284	1,260	4.91
Sir Gaerfyrddin	1,625	1,591	6.20
Abertawe	1,413	1,408	5.49
Castell-nedd Port Talbot	979	954	3.72
Pen-y-bont ar Ogwr	927	918	3.58
Bro Morgannwg	916	918	3.58
Rhondda Cynon Taf	1,521	1,499	5.84
Merthyr Tudful	495	495	1.93
Caerffili	1,174	1,150	4.48
Blaenau Gwent	488	486	1.89
Torfaen	648	639	2.49
Sir Fynwy	963	955	3.72
Casnewydd	1,050	1,035	4.03
Caerdydd	2,178	2,190	8.53
Cymru	25,922	25,663	100.00

Fformiwla:

Pwysoliad:		Dangosydd:
0.673	x	Y boblogaeth 3 i 11 oed (rhagamcan)
0.327	x	Ardal fesul mynegai ysgol uwchradd a fodelwyd

Gweler Atodiad A am werthoedd dangosyddion ac Atodiad B am gyfrannau canrannol

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-2018

Gwasanaethau: Prydau ysgol

Awdurdod Unedol	IBA 2016-17 £000oedd	IBA 2017-18 £000oedd	Cyfran ganrannol 2017-18
Ynys Môn	1,336	1,348	3.06
Gwynedd	1,964	2,003	4.55
Conwy	1,338	1,394	3.17
Sir Ddinbych	1,290	1,373	3.12
Sir y Fflint	1,604	1,653	3.76
Wrecsam	1,663	1,744	3.96
Powys	1,608	1,633	3.71
Ceredigion	1,195	1,249	2.84
Sir Benfro	1,671	1,713	3.89
Sir Gaerfyrddin	2,492	2,611	5.93
Abertawe	2,907	3,015	6.85
Castell-nedd Port Talbot	2,111	2,192	4.98
Pen-y-bont ar Ogwr	2,012	2,034	4.62
Bro Morgannwg	1,363	1,397	3.17
Rhondda Cynon Taf	3,628	3,735	8.48
Merthyr Tudful	970	980	2.23
Caerffili	2,630	2,669	6.06
Blaenau Gwent	1,168	1,192	2.71
Torfaen	1,299	1,332	3.03
Sir Fynwy	868	889	2.02
Casnewydd	2,395	2,472	5.62
Caerdydd	5,292	5,392	12.25
Cymru	42,802	44,023	100.00

Fformiwla:

Pwysoliad:		Dangosydd:
0.835	x	Plant dibynnol mewn teuluoedd heb waith
0.165	x	Trothwy gwasgariad 2,500 (1991)

Gweler Atodiad A am werthoedd dangosyddion ac Atodiad B am gyfrannau canrannol

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru 2017-2018

Gwasanaethau: Gwasanaethau cludiant ysgolion uwchradd

Awdurdod Unedol	IBA 2016-17 £000oedd	IBA 2017-18 £000oedd	Cyfran ganrannol 2017-18
Ynys Môn	1,818	1,682	3.28
Gwynedd	3,619	3,385	6.60
Conwy	2,451	2,269	4.43
Sir Ddinbych	2,139	1,984	3.87
Sir y Fflint	2,201	2,035	3.97
Wrecsam	2,004	1,878	3.66
